



Bydd agoriad arddangosfa Lisa a gynhaliwyd y 7<sup>fed</sup> o Fawrth yn rhan o hanes yr Oriol fel un o'r agoriadau mwyaf yr ydym erioed wedi eu cael wrth i gannoedd o bobl fynychu. Agorwyd yr arddangosfa gan yr actores a'r awdures Ceri Lloyd a chafwyd adloniant cerddorol gan Casi Wyn.

Llun: Peace on Earth Will Come

Er y cafodd y rhan fwyaf o'i lluniau eu gwerthu yn ystod yr agoriad, mae Lisa yn hapus i wneud gwaith comisiwn a gellir cysylltu â hi drwy ei thudalen Instagram:

[lisa.eurgain.celf.art](https://www.instagram.com/lisa.eurgain.celf.art), ei thudalen Facebook: Lisa Eurgain Taylor Celf / Art, ei gwefan :

[www.lisaeurgaintaylor.com](http://www.lisaeurgaintaylor.com) neu drwy e-bost: [lisataylor23@msn.com](mailto:lisataylor23@msn.com)

O ganlyniad i'r argyfwng parhaus mewn perthynas â Covid-19 rydym wedi gorfod cau'r Oriol dros dro. Rydym yn falch y bydd arddangosfa Lisa 'Rhwng Dyn a Daear' yn parhau i fod i fyny yn yr Oriol Gelf am fis ychwanegol pan fydd yr Oriol yn ail agor i'r cyhoedd. Ar gyfer y rhai hynny sydd eto i weld yr arddangosfa, byddwch yn sylwi ar y cysylltiad agos sydd â'r hyn sy'n digwydd yn y byd heddiw. Drwy ei lluniau godidog, mae Lisa yn pwysleisio pwysigrwydd peidio â chymryd ein tirlun prydferth yn ganiataol ac y dylai'r byd naturiol gael ei amddiffyn ar bob cyfrif. Mae rhyngweithiad dinistriol dyn â'r ddaear wedi cyrraedd pwynt critigol a drwy ei delweddau cryf, lliwiau beiddgar, golau dramatig a chysgodion, mae Lisa yn llwyddo i gyfleu teimlad o obaith y byddwn yn agor ein llygaid cyn hir ac yn dechrau cymryd mwy o ofal o'n gilydd a'r blaned.

Pan fyddwn yn y pen draw yn cael cyfle i ymweld ag arddangosfa Lisa, unwaith y bydd y byd wedi dychwelyd yn ôl i'r arfer, fe ddylem gofio'r angen i arafu ychydig, i eistedd i lawr ac i edrych ar ei gwaith ysbrydoledig a bod yn ddiolchgar am bopeth sydd gennym.

Nicola Gibson: Rheolwr Profiad Ymwelydd